CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
7 IONAWR 2015, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL: Cyng D I Roberts, N Jones, R Davies, A Evans, J Evans (Cyngor Sir), M Jones (Cyngor Sir), A W Mummery (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng G Roberts	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Cyng R Davies - cais cynllunio Bryn Gof
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 4 Tachwedd 2014. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. Cyng N Jones yn cynnig a Cyng D I Roberts yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Eglwys Sant Gredifael** - Bydd y Clerc yn gofyn i'r Eglwys am ddiweddariad
4.2	**Dol Fraint, Star (llwybr)** - Mewn llaw (bydd y Clerc yn atgoffa y Cyngor Sir)
4.3	**Cyflymder Penmynydd** - Bydd y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir am ddiweddariad
4.4	**Lon Garnedd Isaf** - mewn llaw
5	**Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon**
	Cynllunio
5.1	**41C5E/FR** Cais llawn ar gyfer codi adeilad amaethyddol i gadw anifeiliaid a cadw gwair a peiriannau ar dir yn Rhydeilian, Penmynydd - dim sylwadau.
5.2	**41C99L** - cais llawn ar gyfer newid defnydd yr adeilad allanol i annedd ynghyd a gosod tanc septig yn Uned 7, Bryn Gof, Llanfairpwll - dim sylwadau.
	Adran Gwastraff
5.3	Darllenwyd llythyr gan Mrs Angharad Holmes yn cwyno am "HGV's" yn defnyddio y lon gefn at Star i deithio yn ol ac ymlaen i Penhesgyn, yn ychwanegu mae cytundeb yn bodoli eu bod yn peidio a defnyddio'r llwybr hwn. Nid yw'r Adran Gwastraff yn ymwybodol o unrhyw gytundeb. Gofynwyd i'r Clerc dod a'r mater at sylw yr Adran Cynllunio.
	Refeniw
5.4	Penderfynwyd peidio codi y precept (yn bresennol £3300) am y flwyddyn 2015/16 - Cyng R Davies yn cynnig a Cyng A Evans yn eilio.
6	**Gohebiaeth Ychwanegol**
6.1	**Mrs A Holmes - Ymddiswyddiad**. Darllenwyd llythyr gan Cyng A Holmes yn ymddiswyddo. Gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr yn diolch i Mrs Holmes am ei gwasanaeth. Mae y Clerc wedi hysbysebu y swydd.
6.2	**Mrs A Holmes - Sant Gredifael** - Darllenwyd llythyr gan Mrs Holmes - "gall yr Eglwys sicrhau i rhai hynny ohonom sydd a beddau teulu yn y fynwent y bydd yr arian yn cael ei wario, allafur a ddarperir i gadw'r fynwent mewn cyflwr boddhaol" Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw yr Eglwys yng Nghymru.
	Llofnod **Cadeirydd** **04.02.15**

6.3	**Mrs A Holmes - HGV -Penhesgyn**- gweler 5.2
7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Penderfynwyd talu Rhys Williams (torri gwair) £410.00
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Mae Cyng A Mummery wedi derbyn cwyn ynghylch sbwriel yn cael ei adael ger Tyddyn Felin a wedi cyfeirio y cwyn at y Cyngor Sir.
8.2	Mae Cyng M Jones wedi meddwl am englyn i'w roi ar y meinciau newydd - i'w ail drafod yn y cyfarfod nesaf.
	Llofnod **Cadeirydd** **04.02.15**